

Hafan  
Pori  
Awduron A-Z  
Chwiliad testun rhydd

English


PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

## WILLIAMS, PENRY (1800 - 1885), peintiwr



**Enw:** Penry Williams  
**Dyddiad geni:** 1800  
**Dyddiad marw:** 1885  
**Partner:** John Gibson  
**Rhiant:** William Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** peintiwr  
**Maes gweithgaredd:** Celf a Phensaerniaeth  
**Awdur:** Megan Ellis

Mab William Williams, saer cerrig o Ferthyr Tydfil, a bedyddiwyd ef yno 2 Chwefror 1800. Bu'n ddisgybl i Fuseli yn ysgolion yr Academi Frenhinol ac enillodd un o fathodau arian Cymdeithas y Celfyddydau yn 1821. Ymsefydlodd yn Rhufain yn 1827 a daeth yn gyfeillgar â **John Gibson** yno.

Etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas Peintwyr mewn Dyfrlliw yn 1828. Dangoswyd nifer o'i ddarluniau yn arddangosfeydd y Sefydliad Prydeinig a Chymdeithas yr Artistiaid Prydeinig a chynifer a 34 yn arddangosfeydd yr Academi Frenhinol rhwng 1822 a 1869, gan gynnwys darluniau o **John Gibson** a'r **arglwyddes Charlotte Guest**. Darluniau o fywyd yn Rhufain a golygfeydd yn yr Eidal yw mwyafrif ei waith, a cheir amryw ohonynt yn yr Oriel Genedlaethol, yr Amgueddfa Brydeinig ac Amgueddfa South Kensington. Ysgythrwyd nifer o'i weithiau. Bu farw yn Rhufain 27 Gorffennaf 1885.

### Nodyn golygyddol 2021:

Cymar Penry Williams yn Rhufain oedd y cerflunydd **John Gibson**.

### Awdur

**Megan Ellis**, (1906 - 2001)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527â€“1911* (1912)

adysgrifau esgobaeth Llandaf

H. Blackwell, **NLW MS 9277A: A Dictionary of Welsh Biography**

### Darllen Pellach

Derrick Pritchard Webley, *Cast to the winds* (Aberystwyth 1997)

Erthygl Wicipedia: **Penry Williams**

### Gweithiau

LIGC: **Drawing vol. 432: Book of drawings by Penry Williams**

Casgliad y Werin Cymru: **Penry Williams - Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa**

ArtUK: **Penry Williams**

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 315943654

Wikidata: Q12065586

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, M., (1953). WILLIAMS, PENRY (1800 - 1885), peintiwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-PEN-1800>

Priffrwydd

Priffrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn parhau gyda  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government